Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Sut i ddefnyddio Rheoli fy Nhir







Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2026

978-1-80633-966-2 Ionawr 2026

**CYNNWYS**


Cyflwyniad ..... 1
Pryd bydd angen imi ddefnyddio Rheoli fy Nhir? ..... 2
Ffurflen Cais Sengl (SAF) - Newidiadau i Barseli Tir ..... 2
Trosglwyddo a Lesio Hawliau BPS ..... 3
Pwy ddylai gyflwyno’r manylion? ..... 3
Beth yw Gweithred? ..... 3
Pwy sydd â rheolaeth ar y tir? ..... 4
Rheoli fy Nhir ..... 7
Beth ydych am ei wneud? ..... 8
Trosglwyddo Tir a Newid Tenantiaeth ..... 9
Trosglwyddo Tir i Mewn ..... 9
Trosglwyddo Tir Allan ..... 18
Tenantiaeth i ddod i ben ..... 26
Cofrestru Tir ..... 31
Cynnal Ffiniau ..... 34
Ychwanegu Ffin (Hollti Parsel Tir) ..... 34
Dileu Ffin (Uno Parseli Tir) ..... 37
Cynnal nodweddion parhaol ar ôl newid ffin ..... 42
Nodweddion Parhaol 0.00ha ar ôl Cynnal Ffin ..... 49
Clirio mwy nag un gwall ..... 56
Parseli Tir Cofrestredig heb eu cofnodi fel rhan o’ch daliad ..... 62
Cywiro Ffiniau Parseli Tir sydd heb eu Cofrestru ..... 63
Crynodeb Cynnal Caeau ..... 65
Ychwanegu / Cadw Nodweddion Parhaol ..... 67
Sylwadau ..... 73
Offer Lluniadu Ychwanegol ..... 74

Dileu Arwynebedd ........................................................................ 76

Dileu rhan o nodwedd barhaol ........................................................... 76

Offer i Newid Nodwedd Barhaol ......................................................... 78

Datganiadau ac Ymrwymiadau .......................................................... 80

Cyflwyno ..................................................................................... 81

Ar ôl Cyflwyno .............................................................................. 82

Gweithredoedd heb eu Cyflwyno ....................................................... 82

Manylion Cysylltu .......................................................................... 83

**Cyflwyniad**

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut mae defnyddio Rheoli fy Nhir i roi gwybod inni pan fyddwch yn cofrestru tir neu newid nodweddion parhaol, newid ffiniau neu drosglwyddo tir h.y. prynu / gwerthu / rhentu tir neu am roi gwybod inni am nodweddion newydd parhaol newydd.

Dylech ddarllen y canllaw hwn ar y cyd ag adrannau perthnasol y Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Canllawiau 2026 a Llyfryn Rheolau Cais Sengl diweddaraf cyn cyflwyno'r manylion.

Os bydd angen unrhyw help neu gyngor arnoch wrth ddefnyddio Rheoli fy Nhir, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru (RPW) trwy adael neges ar RPW Ar-lein neu drwy ffonio 0300 062 5004.

Fe allech hefyd ofyn am gyngor proffesiynol cyn cyflwyno'r wybodaeth inni. Ond cofiwch, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu bod yr wybodaeth yn gywir. Er bod y canllaw hwn yn rhoi cyngor cyffredinol, ni ellir rhag-weld pob sefyllfa a allai godi.

Cofiwch y gallech gael eich cosbi am dorri rheolau'r cynllun ac fe allech golli'ch taliad am beidio â dilyn y canllaw hwn.

Rhaid cyflwyno'r wybodaeth Rheoli fy Nhir o fewn 30 niwrnod ar ôl i'r newid rydych yn rhoi gwybod inni amdano ddigwydd. Gallai peidio â rhoi gwybod am newidiadau o fewn y terfyn amser hwn arwain at gosb, a gallai olygu lleihau neu atal cymorth.

Yn ôl i'r Cynnwys

**Pryd bydd angen imi ddefnyddio Rheoli fy Nhir?**

Dylech ddefnyddio Rheoli fy Nhir i roi gwybod inni:

- pan fydd angen ichi gofrestru tir sydd ddim wedi cael ei gofrestru gyda RPW
- pan fydd angen ichi roi gwybod am nodweddion parhaol newydd neu rai sydd wedi newid
- pan fyddwch yn rhannu neu'n uno cae neu'n symud ffin cae, yn barhaol*
- pan fyddwch yn prynu neu'n gwerthu tir yn barhaol
- pan fyddwch yn dechrau rhentu tir i mewn neu allan
- pan fyddwch yn dod â chyfnod rhentu i ben yn gynt na'r disgwyl
- pan fyddwch yn prynu, gwerthu, rhentu allan neu rhentu tir gyda Hawliau BPS.

*Bydd newid parhaol yn golygu creu neu ddileu nodwedd fel perth/gwrych, wal neu ffos, hynny yw unrhyw newid y byddwch yn disgwyl iddo bara dros gyfnod sylweddol (gallech gymryd pum mlynedd fel amcan).

Rhaid cyflwyno'r manylion Rheoli fy Nhir o fewn 30 niwrnod ar ôl:

- newid sy'n digwydd i dir
- dyddiad cwblhau'r broses o drosglwyddo tir yn barhaol
- dyddiad dechrau rhentu tir
- newid y dyddiad olaf rhentu.

**Ffurflen Cais Sengl (SAF) - Newidiadau i Barseli Tir**

Os ydych chi'n bwriadu hawlio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Haen Gyffredinol ac os oes angen newid parsel tir arnoch, fel newid ffin, rhannu/uno caeau neu ychwanegu/dileu neu newid nodwedd barhaol, bydd angen ichi gyflwyno Rheoli fy Nhir gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein cyn ichi wneud unrhyw newidiadau ar y parsel tir as eich Ffurflen Cais Sengl (SAF). Bydd yr wybodaeth a roddwch ar gyfer Rheoli Fy Nhir, ar ôl ei chyflwyno, yn diweddaru'r cais SAF yn awtomatig.

Bydd unrhyw newidiadau rydych yn ei wneud i'ch parsel ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF) cyn llenwi Rheoli fy Nhir yn cael eu colli a bydd rhaid ddiweddaru'r wybodaeth unwaith eto ar eich Ffurflen Cais Sengl.

**Trosglwyddo a Lesio Hawliau BPS**

Byddwch yn cael parhau i drosglwyddo neu lesio hawliau BPS cyn belled â bod gennych arwynebedd o dir cymwys (neu fwy) sy'n cyfateb i'r hawliau sy'n cael eu trosglwyddo neu eu lesio. Ni fydd modd trosglwyddo na lesio hawliau heb dir.

Os ydych yn lesio hawliau, rhaid bod gan les yr hawliau a les y tir cysylltiedig yr un dyddiad gorffen. Os bydd les y tir yn gorffen yn gynnar, bydd yr hawliau'n mynd yn ôl i'r lesydd. Os ydy'r lesydd yn hawlio SFS, rhaid iddo ildio'r hawliau.

Gellir parhau i drosglwyddo a lesio hawliau'r BPS gyda thir hyd at ddiwedd y cyfnod pontio, tra bydd y BPS ar gael tan flwyddyn 2028.

**Pwy ddylai gyflwyno'r manylion?**

Gall y manylion Rheoli fy Nhir gael eu llenwi gan unrhyw un sydd â budd yn y parsel tir (h.y. perchennog y parsel tir neu'r sawl sy'n ei rentu), neu rywun sydd wedi cael yr awdurdod i weithredu ar ran y person hwnnw. Dim ond un cwsmer ddylai roi gwybod am newid.

Fodd bynnag, os yw deiliad tir sy'n rhan o gynllun Amaeth-amgylcheddol yn newid, y cwsmer sy'n ysgwyddo'r ymrwymiadau ddylai gyflwyno'r wybodaeth.

**Beth yw Gweithred?**

Mae'r Gweithredoedd sydd ar gael i'w gwneud ar Rheoli fy Nhir ar hyn o bryd i'w gweld ar y rhestr '**Beth ydych am ei wneud**?' Dyma nhw:

- Trosglwyddo Tir a Newid Tenantiaeth

    Trosglwyddo Tir i Mewn

    Trosglwyddo Tir Allan

    Tenantiaeth i ddod i ben

- Cofrestru Tir
- Cynnal Ffin

    Ychwanegu Ffin (Rhannu Parsel Tir)

    Dileu Ffin (Uno Paseli Tir)

    Symud Ffin

- Cynnal Nodweddion Parhaol.

Mae Rheoli fy Nhir yn gadael i chi roi gwybod am faint fynnoch chi o drosglwyddiadau tir i/gan fwy nag un cwsmer mewn un cam.

**Pwy sydd â rheolaeth ar y tir?**

Bob tro y byddwch yn rhoi gwybod inni eich bod yn rhentu tir, rhaid dweud a oes gan y cwsmer sy'n rhentu'r tir i mewn reolaeth lwyr ar y tir hwnnw. Mae rheolaeth lwyr mewn cysylltiad â thir rhent fel arfer yn golygu:


- bod gan denant 'ddeiliadaeth lwyr' ar y tir naill ai o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 â Thenantiaeth Busnes Fferm neu denantiaeth lawn o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
- bod gan y tenant denantiaeth lafar gyda'r un lefel o reolaeth â'r uchod.

Os ydych yn borwr (â thrwydded) ac mai unig ffynhonnell eich hawl i fynd ar y tir yw'r drwydded bori sy'n caniatáu i chi e.e. ladd neu bori'r borfa gyda defaid a/neu wartheg heb gyfrifoldebau o ran cynnal a chadw/trwsio ffiniau, rheoli'r pridd ac ati, nid chi sydd â 'rheolaeth lwyr' ar y tir.  Yna, ni fydd angen ichi roi gwybod inni eich bod yn defnyddio'r tir hwnnw fel porwr, a rhaid ichi beidio â datgan y tir hwnnw ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF).

Yn ôl i'r Cynnwys

**Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Mewngofnodi**

Gellir cael mynediad i Rheoli fy Nhir drwy eich Cyfrif RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth neu One Login GOV.UK.



Llywodraeth Cymru Welsh Government RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English

## Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

○ Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
○ Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

### Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

### Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

### Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dîm ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.

Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.

### Sut mae cysylltu i ofyn cwestiwn?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y newid i One Login GOV.UK, Cysylltwch â ni

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl mewngofnodi i’ch cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.


(Caiff Asiantwyr neu Undebau Ffermwyr sy’n gweithredu ar ran cwsmer weld y sgrin hon ar ôl iddyn nhw ddewis cwsmer o’r sgrin dewis cwsmeriaid.)




[Yn ôl i'r Cynnwys]

## Rheoli fy Nhir

Mae Rheoli fy Nhir ar gael ar eich tab ‘Tir.  Hefyd, mae dolen i’r canllaw hwn ar y sgrin gyntaf.





Cliciwch y botwm ‘Parhau’ i fynd yn eich blaen.

[Yn ôl i’r Cynnwys](#)

**Beth ydych am ei wneud?**

Dewiswch y Weithred rydych am ddweud wrthym amdani.

Os ydych am roi gwybod i ni am fwy nag un math o Weithred, dewiswch un o’r opsiynau hyn a dewch yn ôl wedyn at y sgrin i ddewis un arall yn nes ymlaen.




[Yn ôl i’r Cynnwys](#)


## Trosglwyddo Tir a Newid Tenantiaeth


### Trosglwyddo Tir i Mewn

Yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?** dewiswch Trosglwyddo Tir a Newid Tenantiaeth o'r gwymplen.




Nodwch yr holl fanylion rydych chi'n eu gwybod am y Partïon Eraill ar yr ochr chwith. Bydd yr opsiwn 'Prynu' wedi'i ddewis yn awtomatig ar yr ochr dde a rhaid nodi'r Dyddiad Prynu (y sgrin gyntaf isod). Os ydych yn rhentu tir i mewn, dewiswch 'Rhentu' a nodi'r manylion rhentu (yr ail sgrin isod).



**Math o Denantiaeth**

Nodwch ba un sy'n berthnasol ichi:

- Tenantiaeth Amaethyddol Lawn (o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986)
- Tenantiaeth Busnes Fferm (o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995)
- Tenantiaeth Lafar
- Trwydded Bori

Os ydych yn borwr (â thrwydded) ac mai unig ffynhonnell eich hawl i fynd ar y tir yw'r drwydded bori sy'n caniatáu i chi e.e. ladd neu bori'r borfa gyda defaid a/neu wartheg, heb gyfrifoldebau o ran cynnal a chadw/trwsio ffiniau, rheoli'r pridd ac ati, nid chi sydd â 'rheolaeth lwyr' ar y tir. Ni fydd angen ichi felly ddweud wrthym ni eich bod yn defnyddio'r tir fel porwr a pheidiwch â datgan y tir ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF).

**Dyddiad Olaf Rhentu** - Os ydych yn rhentu'r tir am gyfnod amhenodol neu dymor hir heb wybod pryd y daw'r cyfnod i ben, rhowch 01/01/2099 fel y Dyddiad Olaf Rhentu.


**Tenantiaeth Ailadroddus** - Dewiswch 'Ydy' os yw'r cyfnod rhentu'n para llai na 12 mis ac os yw'r un dyddiadau'n berthnasol yn y blynyddoedd nesaf hefyd.

**O dan Reolaeth Lwyr** - Cadarnhewch fod gennych reolaeth lwyr ar y tir rydych yn ei rentu i mewn. Er mwyn medru dweud bod gennych reolaeth lwyr ar y tir, byddwch yn denant ac yn unig feddiannwr ar y tir o dan Denantiaeth Busnes Fferm Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, tenantiaeth o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 neu denantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r rhain.

Ar ôl cofnodi'r manylion i gyd, cliciwch 'Parhau'.

Drwy glicio ar y botwm 'Yn ôl', fe ewch chi yn ôl i'r dudalen '**Beth ydych am ei wneud?**' a chaiff yr holl wybodaeth rydych wedi'i rhoi ar y dudalen hon ei dileu.

Yna, rhaid nodi manylion pob parsel tir sy'n cael ei drosglwyddo i mewn yn y maes chwilio. Os yw'r parsel tir eisoes wedi'i gofrestru gyda RPW, bydd y parsel yn ymddangos o dan y maes chwilio, bydd angen i chi ddewis y darn tir.




Ar ôl dewis y parsel tir, bydd ffenestr newydd yn agor ar y sgrîn yn dangos y parcel tir. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn trosglwyddo y parsel tir cywir i fewn.





Unwaith y byddwch wedi cadarnhau y parsel cywir, bydd y parsel yn cael ei ychwanegu at y rhestr 'Parseli Tir wedi'u Dewis' fel y dangosir yn y sgrin isod. Bydd y parsel a ddewiswyd yn cael ei ddangos ar y map mewn melyn.


Os ydych wedi dewis parsel anghywir, gallwch ddileu y parsel a ddewiswyd trwy glicio'r botwm 'Datddewis', sydd wedi'i leoli wrth ymyl manylion y parsel, i ddileu y parsel o'r Weithred Trosglwyddo neu ddewis y botwm 'Clirio' a fydd yn clirio popeth ar y cais.

Gallwch ddewis sawl parsel os ydynt yn cael eu gaffael gan yr un 'Partïon Eraill'.


Bydd Statws y parsel yn cael ei harddangos ar waelod dde o'r map.





Bydd cyfanswm Maint y Cae yn ymddangos wrth y parseli tir dan sylw pan fyddwch yn clcio ar y parsel sy wedi'i restru yn y blwch 'Parseli Tir wedi'u Dewis'.




Os ydych yn rhentu, rhaid ichi gadarnhau a ydych yn rhentu'r parsel tir cyfan. Os nad ydych, rhaid cadarnhau bod yr arwynebedd rydych yn ei rentu yn gywir.






Os ydych wedi nodi y manylion anghywir ar gyfer y Arwynebedd Rhentu, gallwch glicio ar Golygu yn y blwch Parseli Tir wedi'u Dewis i wneud y newidiadau angenrheidiol.



Gallwch ddewis 'Gweld Map' ar gyfer y parseli tir dan sylw os dymunwch. Bydd y parseli tir dan sylw yn ymddangos yn felyn. Drwy glicio 'Yn ôl', fe ewch yn ôl i'r sgrin Trosglwyddo Tir i Mewn.




Os nad oes cofnod o'r parsel ar ein cronfa ddata, bydd y neges canlynol yn dangos 'Dim caeau ar gyfer yr ymholiad hwn' fel a dangosir yn y sgrin isod.



Gofalwch fod Cyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae yn gywir. Os ydych wedi bwydo'r rhifau anghywir, gallwch eu newid a bwrw ymlaen. Os nad yw'r parsel wedi'i gofrestru gyda ni, bydd angen ei gofrestru yn hytrach na'i drosglwyddo i mewn. Dylech glicio 'Datddewis' i dynnu'r parsel tir hwn ac ychwanegu rhai eraill. Cliciwch 'Yn ôl' i fynd yn ôl i'r sgrin flaenorol os mai hwn oedd yr unig barsel tir rydych yn rhoi gwybod i ni amdano fel rhan o'r Weithred hon a'ch bod yn dymuno rhoi gwybod i ni am Weithred arall neu gofrestru'r parsel tir. Os ydych wedi dewis parseli tir eraill fel rhan o'r trosglwyddiad hwn dylech ddewis 'Parhau' i fwrw ymlaen â'r rhain yn gyntaf.

**Pwysig:** Cofiwch, os ydych yn prynu ac yn rhentu i mewn, neu os oes mwy nag un Parti Arall, rhaid eu nodi fel Gweithredoedd gwahanol.

Enghraifft:

Gweithred 1: Prynu 3 parsel o dir oddi wrth y Brodyr Jones ar 10/01/2025

Gweithred 2: Prynu 2 barsel o dir oddi wrth y Brodyr Jones ar 20/01/2025

Gweithred 3: Prynu 2 barsel o dir oddi wrth Ifans a'i Fab ar 20/01/2025

Gweithred 4: Rhentu 1 parsel o dir i mewn oddi wrth Ifans a'i Fab 10/01/2025 – 20/06/2032


Gweithred 5: Rhentu 4 parsel o dir i mewn oddi wrth Ifans a'i Fab 18/01/2025 – 20/06/2032.

Yn yr enghraifft hon, rhaid cofnodi 5 Gweithred wahanol gan fod gan Weithredoedd 1 a 2 Ddyddiadau Prynu gwahanol; mae gan Weithredoedd 2 a 3 Bartïon Eraill gwahanol; mae gan Weithredoedd 4 a 5 Ddyddiadau Cychwyn Rhentu gwahanol.

Pan fyddwch wedi nodi'r holl barseli tir sy'n rhan o'r Weithred rydych yn rhoi gwybod inni amdani, cliciwch 'Parhau'.




Mae'r sgrin Parseli yr ydych wedi'u Trosglwyddo i Mewn yn dangos manylion y Weithred rydych wedi'i chofnodi. Os yw'r manylion i gyd yn gywir, cliciwch 'Parhau'. Os oes angen eu newid, cliciwch 'Yn ôl'.




Mae'r sgrin Crynodeb yn rhestru'r Gweithredoedd a ychwanegwyd ar gyfer y cais hwn. Mae croes goch yn dangos nad ydych wedi edrych ar dab neu fod gwall ynddo. Rhaid cywiro pob gwall cyn ei gyflwyno. Mae tic gwyrdd yn dangos eich bod wedi gweld y tab ac nad oes gwall, hyd y gwyddom ni.


Gallwch Weld neu newid unrhyw Weithred a byddwch yn gweld y sgrin hon neu sgrin gyfatebol ar gyfer Gweithredoedd eraill, os byddwch yn gwneud hynny.




Os ydych yn fodlon â'r manylion cliciwch 'Yn ôl' i ddychwelyd i'r sgrin flaenorol. Fel arall, gallwch ddewis Newid neu Ddileu'r Weithred.

Os oes gennych Weithredoedd eraill i'w hychwanegu, cliciwch 'Ychwanegu Gweithred Newydd'.

Unwaith y byddwch wedi ychwanegu'r holl Weithredoedd rydych yn ein hysbysu amdanynt, cliciwch 'Datgan a Chyflwyno'.




Wrth ichi ychwanegu Gweithredoedd newydd, bydd gan barseli tir sy'n destun Gweithred ac sydd heb eu cyflwyno eto statws Drafft.  Byddant yn las ar y map.


Yn ôl i'r Cynnwys


## Trosglwyddo Tir Allan

Yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?** dewiswch ‘Trosglwyddo Tir a Newid Tenantiaeth’ a dewis ‘Trosglwyddo Tir Allan’ o’r gwymlen.




Nodwch yr holl fanylion rydych chi’n eu gwybod am y Partïon Eraill ar yr ochr chwith. Bydd yr opsiwn ‘Gwerthu (Gan gynnwys Rhodd neu Etifeddiaeth)’ wedi’i ddewis yn awtomatig ar yr ochr dde a rhaid nodi’r Dyddiad Gwerthu (y sgrin gyntaf isod). Os ydych yn rhentu tir allan, dewiswch ‘Rhentu’ a nodi’r manylion rhentu (yr ail sgrin isod).



**Math o Denantiaeth**

Nodwch ba un sy'n berthnasol ichi:

- Tenantiaeth Amaethyddol Lawn (o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986)
- Tenantiaeth Busnes Fferm (o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995)
- Tenantiaeth Lafar
- Trwydded Bori

Os ydych yn rhentu'r tir allan i rywun o dan drwydded bori ac mai unig ffynhonnell hawl y person hwnnw i fynd ar y tir yw trwydded bori sy'n caniatáu iddo e.e. ladd neu bori'r borfa gyda defaid a/neu wartheg, heb gyfrifoldebau o ran cynnal a chadw/trwsio ffiniau, rheoli'r pridd ac ati, nid hwnnw fydd â 'rheolaeth lwyr' ar y tir. Ni fydd angen ichi felly ddweud wrthym ei fod yn defnyddio'r tir fel porwr. Bydd dal gofyn ichi ddatgan y tir ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF) os ydych yn ffermio'r tir a bod gennych reolaeth lwyr arno.

**Dyddiad Olaf Rhentu** Os ydych yn rhentu'r tir am gyfnod amhenodol neu dymor hir heb wybod pryd y daw'r cyfnod i ben, rhowch 01/01/2099 fel y Dyddiad Olaf Rhentu.


**Tenantiaeth Ailadroddus** Dewiswch 'Ydy' os yw'r cyfnod rhentu'n para llai na 12 mis ac os yw'r un dyddiadau'n berthnasol yn y blynyddoedd nesaf hefyd.

**O dan Reolaeth Lwyr** Cadarnhewch eich bod yn rhentu'r tir allan gyda rheolaeth lwyr. Er mwyn gallu dweud bod gan y tenant reolaeth lwyr ar y tir, bydd yn unig feddiannwr ar y tir naill ai o dan Denantiaeth Busnes Fferm Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, tenantiaeth o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 neu denantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r rhain. '

Ar ôl cofnodi'r manylion i gyd, cliciwch 'Parhau'.

Drwy glicio ar y botwm 'Yn ôl', fe ewch chi yn ôl i'r dudalen **Beth ydych am ei wneud?** a chaiff yr holl wybodaeth rydych wedi'i rhoi ar y dudalen ei dileu.

Yna, rhaid ichi ddewis y parseli tir rydych yn eu trosglwyddo allan, sef y rhai y mae Manylion y Parti Arall a Manylion Trosglwyddo Allan ar y sgrin ddiwethaf yn ymwneud â nhw.





Gallwch ddewis y parseli tir rydych yn eu gwerthu neu'n eu rhentu allan fel a ganlyn:

1) Os ydych yn gwerthu'r holl barseli tir rydych yn berchen arnynt i'r un person ac ar yr un dyddiad, cliciwch 'Dewis Pob Un'. Os byddan nhw'n troi'n felyn, mae hynny'n golygu nad ydym wedi'u cofnodi fel parseli sy'n perthyn i chi. Os yw hyn yn anghywir, a'ch bod yn berchen arnyn nhw a'ch bod yn eu gwerthu, ychwanegwch nhw bob yn un.

2) Nodwch Gyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae yn y blwch 'Chwilio…'.

3) Cliciwch y parseli tir ar y map.

4) Defnyddiwch yr Erfyn Targedu .


**Pwysig:** Cofiwch, os ydych yn gwerthu ac yn rhentu allan, neu os oes mwy nag un Parti Arall, rhaid eu nodi fel Gweithredoedd Trosglwyddo gwahanol.

Enghraifft:

| | |
|---|---|
| Gweithred 1: | Gwerthu 3 pharsel o dir i'r Brodyr Jones ar 10/01/2025 |
| Gweithred 2: | Gwerthu 2 barsel o dir i'r Brodyr Jones ar 20/01/2025 |
| Gweithred 3: | Gwerthu 2 barsel o dir i Ifans a'i Fab ar 20/01/2025 |
| Gweithred 4: | Rhentu 1 parsel o dir i Ifans a'i Fab 10/01/2025 – 20/06/2032 |
| Gweithred 5: | Rhentu 4 parsel o dir i Ifans a'i Fab 18/01/2025 – 20/06/2032. |

Yn yr enghraifft hon, rhaid nodi 5 Gweithred gan fod gan Weithredoedd 1 a 2 Ddyddiadau Gwerthu gwahanol; mae gan Weithredoedd 2 a 3 Bartïon Eraill gwahanol; mae gan Weithredoedd 4 a 5 Ddyddiadau Cychwyn Rhentu gwahanol.


Os ydych yn rhentu, rhaid cadarnhau eich bod yn rhentu'r parsel tir cyfan allan. Os nad ydych, rhaid cadarnhau'r arwynebedd rydych yn ei rentu ac yna clicio 'Parhau'.





Drwy glicio 'Yn ôl', byddwch yn mynd yn ôl i **Chwilio** ac yn dileu'r parsel tir sydd wedi'i ddewis ar hyn o bryd.

Os ydych yn rhoi gwybod inni eich bod yn gwerthu neu'n rhentu cae allan ac nad oes cofnod gennym ar ein cronfa ddata eich bod yn berchen arno na'i fod ar gael ichi ei ddefnyddio, teipiwch Gyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae yn y blwch 'Chwilio …'.

Yna gallwch glicio ar Gyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae sy'n ymddangos o dan y blwch chwilio neu'r eicon chwilio glas.





Fel arall, defnyddiwch yr Erfyn Targedu. Chwiliwch am y parsel tir rydych am ei drosglwyddo allan ar eich map. Cliciwch ar yr Erfyn Targedu piws, ac yna cliciwch yn y parsel tir sy'n cael ei drosglwyddo allan.



Rhaid rhoi'r manylion yn y sgrin Hawl i Drosglwyddo Tir a thicio'r blwch i gadarnhau bod gennych yr Hawl i Drosglwyddo'r parsel tir, yna cliciwch 'Parhau'.





Drwy glicio 'Yn ôl', byddwch yn mynd yn ôl i '**Chwilio …**' ac yn dileu'r parsel tir sydd wedi'i ddewis ar hyn o bryd.





Pan fyddwch wedi nodi'r holl barseli tir sy'n rhan o'r Weithred Trosglwyddo rydych yn rhoi gwybod inni amdani, cliciwch 'Parhau'.





Bydd y sgrin Parseli Tir yr ydych wedi’u Trosglwyddo Allan yn dangos manylion y Weithred. Os yw’r manylion i gyd yn gywir, cliciwch ‘Parhau’. Os oes angen newid rhywbeth, cliciwch ‘Yn ôl’.




Mae’r sgrin Crynodeb yn rhestru’r Gweithredoedd a ychwanegwyd ar gyfer y cais hwn. Mae croes goch yn dangos nad ydych wedi edrych ar dab neu fod gwall ynddo. Rhaid cywiro pob gwall cyn ei gyflwyno. Mae tic gwyrdd yn dangos eich bod wedi gweld y tab ac nad oes gwall, hyd y gwyddom ni.




Gallwch weld neu newid unrhyw Weithred a byddwch yn gweld y sgrin hon neu sgrin gyfatebol ar gyfer Gweithredoedd eraill, os byddwch yn gwneud hynny.




Os oes gennych Weithredoedd eraill i'w hychwanegu, cliciwch 'Ychwanegu Gweithred Newydd'.

Wrth ichi ychwanegu Gweithredoedd newydd, bydd gan barseli tir sy'n destun Gweithred ac sydd heb eu cyflwyno eto statws Drafft. Byddant yn las ar y map.




Ar ôl ychwanegu’r holl Weithredoedd rydych am roi gwybod inni amdanyn nhw, cliciwch ‘Datgan a Chyflwyno’.

Yn ôl i’r Cynnwys


**Tenantiaeth i ddod i ben**

Os ydych chi'n rhentu parseli tir i mewn neu allan a bod y denantiaeth yn dod i ben yn gynt na phan ddywedoch chi, yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?,** dewiswch Trosglwyddo Tir a Newid Tenantiaethau a dewiswch Tenantiaeth i ddod i ben o'r gwymplen.


(Pwysig – os ydych am estyn tenantiaeth yn hytrach na dod â'r denantiaeth i ben yn gynt, rhaid ichi aros tan y daw'r denantiaeth wreiddiol i ben ac wedyn rhoi gwybod inni am y denantiaeth estynedig fydd yn defnyddio'r tir a drosglwyddir i mewn.)




Rhaid ichi wedyn ddewis y parsel tir trwy naill ai nodi Cyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae yn y blwch 'Chwilio.....' neu drwy chwilio am y parsel tir ar eich map a chlicio yn y parsel tir i'w ddewis.



Bydd y manylion sydd gennym am y denantiaeth yn cael eu dangos yn y blwch.




Tenantiaeth i ddod i ben - [redacted]

Rhowch y Dyddiad Olaf Rhentu newydd a/neu dynnwch y tic Tenantiaeth Ailadroddus. Cofiwch rhaid iddo fod cyn y dyddiad olaf gwreiddiol.

| Math | Math o Denantiaeth | Dyddiad Cychwyn Rhentu | Dyddiad Olaf Rhentu | Arwynebedd Rhentu (ha) |
|---|---|---|---|---|
| Rhentu i Mewn | Tenantiaeth Amaethyddol Lawn | 01/04/2023 | 31/03/2028 | 1.31 |

Yn ôl Parhau

Nodwch Ddyddiad Olaf Rhentu newydd a chlicio Parhau.




Tenantiaeth i ddod i ben - [redacted]

Rhowch y Dyddiad Olaf Rhentu newydd a/neu dynnwch y tic Tenantiaeth Ailadroddus. Cofiwch rhaid iddo fod cyn y dyddiad olaf gwreiddiol.

| Math | Math o Denantiaeth | Dyddiad Cychwyn Rhentu | Dyddiad Olaf Rhentu | Arwynebedd Rhentu (ha) |
|---|---|---|---|---|
| Rhentu i Mewn | Tenantiaeth Amaethyddol Lawn | 01/04/2023 | 20/12/2025 | 1.31 |

Yn ôl Parhau

Yna fe welwch y sgrin Crynodeb Diwedd Tenantiaeth.  Cliciwch Yn ôl os yw'r manylion yn anghywir neu clicio 'Parhau' i fynd yn eich blaen.




Diwedd Crynodeb Tenantiaeth - [redacted]

| | |
|---|---|
| Math | Rhentu i Mewn |
| Math o Denantiaeth | Tenantiaeth Amaethyddol Lawn |
| Dyddiad Cychwyn Rhentu | 01/04/2023 |
| Dyddiad Olaf Rhentu | 20/12/2025 |
| Arwynebedd Rhentu | 1.31 |
| Tenantiaeth Ailadroddus | Nac Ydw |


Yn ôl Parhau

Bydd sgrin y Crynodeb yn dangos manylion y rhentu newydd.

Os oes gennych weithredoedd eraill i'w hychwanegu, cliciwch Ychwanegu Gweithred Newydd.  Ar ôl ychwanegu'r holl Weithredoedd rydych am roi gwybod inni amdanyn nhw, cliciwch 'Datgan a Chyflwyno'.




Fel arall cliciwch Gweld/Newid os ydyn nhw'n anghywir ac fe welwch y sgrin ganlynol.




Gallwch nawr Ddileu'r Weithred, clicio Newid neu os ydy'r holl fanylion yn gywir, cliciwch Yn ôl.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)


**Gorffen neu newid Tenantiaeth Ailadroddus**

Ar gyfer tenantiaeth ailadroddus, gallwch:


- newid tenantiaeth o fod yn denantiaeth ailadroddus i fod yn denantiaeth untro
- newid dyddiad diwedd tenantiaeth ailadroddus i ddyddiad cynt
- dod â'r denantiaeth i ben yn llwyr.

Yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?**, dewisiwch Trosglwyddo Tir a Newid Tenantiaethau a dewiswch Tenantiaeth i Ddod i Ben o'r gwymplen.




Rhaid ichi wedyn ddewis y parsel tir trwy naill ai nodi Cyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae yn y blwch 'Chwilio' neu drwy chwilio am y parsel tir ar eich map a chlicio yn y parsel tir i'w ddewis.



Tenantiaeth i ddod i ben - [redacted]

Rhowch y Dyddiad Olaf Rhentu newydd a/neu dynnwch y tic Tenantiaeth Ailadroddus. Cofiwch rhaid iddo fod cyn y dyddiad olaf gwreiddiol.

| Math | Math o Denantiaeth | Dyddiad Cychwyn Rhentu | Dyddiad Olaf Rhentu | Arwynebedd Rhentu (ha) | Tenantiaeth Ailadroddus |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhentu i Mewn | Tenantiaeth Lafar | 01/11/2025 | 30/10/2026 | 0.88 | ☑ |

Yn ôl Parhau

Gallwch nawr:

- ddileu'r tic o dan Tenantiaeth Ailadroddus os ydy'r dyddiadau rhentu yr un peth ag o'r blaen ond mai hon yw blwyddyn olaf y denantiaeth

- newid y Dyddiad Olaf Rhentu i ddyddiad cynt os ydy dyddiadau'r denantiaeth wedi newid, ond bod y dyddiadau newydd yn ailadrodd bob blwyddyn

- newid y Dyddiad Gorffen Rhentu i ddyddiad cynt a dileu'r tic o dan Tenantiaeth Ailadroddus os ydy dyddiadau'r denantiaeth wedi newid ond na fydd y newid yn ailadrodd bob blwyddyn.

**Cofiwch**: Os ydych chi'n dod â Thenantiaeth Ailadroddus i ben a'ch bod am rentu'r parsel tir hwn eto, bydd gofyn ichi gyflwyno cais Rheoli fy Nhir newydd pan fydd y denantiaeth newydd yn dechrau. Gofalwch eich bod yn ychwanegu'r parsel tir at eich SAF os oes angen.


[Yn ôl i'r Cynnwys]

## Cofrestru Tir

Yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?** dewiswch ‘Cofrestru Tir’.




Dim ond tir sydd ddim wedi cael ei gofrestru’n barod gyda Taliadau Gwledig Cymru y gallwch ei gofrestru. Bydd tir sydd wedi cael ei gofrestru’n barod yn ymddangos mewn coch os ydy’ch map ar raddfa o 100 metr / 200 troedfedd neu lai. Fyddwch chi ddim yn gallu cynnwys y tir hwn mewn cais cofrestru.




I gofrestru’ch parsel tir, yn gyntaf oll mae’n rhaid i chi ddod o hyd iddo ar y map o Gymru. Bydd eich map yn addasu’n awtomatig yn unol â maint eich daliad presennol er mwyn eich helpu i chwilio am eich parsel newydd o dir. Efallai y byddwch yn dymuno ‘pellhau’ (zwmio allan) i ddechrau os nad yw’r parsel rydych yn ei gofrestru wrth ymyl eich parseli tir presennol.




Pan fyddwch chi wedi dod o hyd i'r parsel tir rydych yn ei gofrestru, dewiswch Lluniadu'r Arwynebedd o'r opsiynau uwchben y map. Symudwch y cyrchwr i'r man lle rydych am ddechrau lluniadu, cliciwch a rhyddhau botwm chwith eich llygoden a dechrau symud y cyrchwr o amgylch ffiniau'r parsel tir. Cliciwch y botwm ochr chwith i newid cyfeiriad nes byddwch chi wedi lluniadu siâp y parsel tir, gan orffen drwy glicio unwaith ar y man cychwyn. Mae'n bosibl y bydd eich braslun yn cael ei leihau rhag cynnwys unrhyw dir sydd wedi cael ei gofrestru'n barod.

Pan fyddwch wedi gorffen, bydd Cyfeirnod y Ddalen, Rhif y Cae a Maint y braslun yn cael eu cyfrif a byddant yn ymddangos yng nghornel chwith uchaf y sgrin.

Cliciwch Gorffen Braslun a bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos. Mae'n rhaid i chi roi Maint y parsel newydd sydd wedi'i Ddatgan ac ateb y cwestiynau sy'n ymwneud a rheolaeth a deiliadaeth. Cewch hefyd roi Gwybodaeth Ychwanegol os ydych yn dymuno.


Manylion y Parsel Tir

Rhowch y manylion canlynol ar gyfer y Parsel Tir sydd newydd ei gofrestru.
Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

Cyfeirnod y Ddalen [redacted]

Rhif y Cae [redacted]

Maint y braslun 0.34 ha

Maint a ddatganwyd* ha

A ydych yn Rheoli y Parsel Tir hwn?* Dewiswch os gwelwch yn dd

Pa fath o ddeiliadaeth sydd gennych ar y tir?* Dewiswch os gwelwch yn dd

Gwybodaeth Ychwanegol (dim mwy na 255 o nodau) 0 / 255


Yn ôl i Luniadu Parhau

Os ydych yn rhentu’r parsel tir, bydd angen i chi hefyd ateb y cwestiwn ychwanegol ‘A yw’r ddeiliadaeth hon yn ailadrodd bob blwyddyn?’. Peidiwch â dewis ‘Ydy’ oni bai fod y cyfnod rhentu yn llai na 12 mis, a bod union yr un dyddiadau’n berthnasol ar gyfer y blynyddoedd nesaf.




Gan fod angen i chi roi tystiolaeth ategol i ddangos eich bod yn berchen ar y parsel tir neu’n ei rentu wrth gofrestru parsel newydd o dir, does dim angen i chi roi unrhyw ddyddiadau prynu na rhentu ar y sgrin – byddwn yn gweld y rhain ar y dystiolaeth ategol. Rhaid ichi felly wneud yn siŵr bod y manylion hyn yn y dystiolaeth y byddwch yn ei chyflwyno. Os ydych yn berchen ar y parseli tir, bydd angen i ni gael Gweithredoedd yr Eiddo neu Gopi Swyddogol o’r Gofrestr Teitlau, sy'n gorfod cynnwys y map cysylltiedig. Os ydych yn denant neu’n borwr, bydd angen i ni gael llythyr gan y perchennog yn cadarnhau ei fod wedi rhoi awdurdod i chi ddefnyddio’r parsel neu’r parseli penodol o dir, neu gytundeb tenantiaeth wedi'i llofnodi gan y ddwy ochr.

Pan fyddwch wedi ateb pob cwestiwn ac wedi ychwanegu unrhyw sylwadau sydd gennych, cliciwch Parhau a byddwch yn gweld Crynodeb o’ch Parsel Tir Cofrestredig. Darllenwch y crynodeb i wneud yn siŵr bod popeth yn gywir ac os oes angen newid unrhyw beth, cliciwch Yn ôl.


Crynodeb o'ch Parsel Tir Cofrestredig

Adolygu yr wybodaeth isod.

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod y Ddalen | [redacted] |
| Rhif y Cae | [redacted] |
| Maint y braslun | 0.34 ha |
| Maint a ddatganwyd | 0.35 ha |
| A ydych yn Rheoli y Parsel Tir hwn? | Ydw |
| Pa fath o ddeiliadaeth sydd gennych ar y tir? | A - Tenantiaeth Amaethyddol Lawn |
| A yw'r ddeiliadaeth hon bob blwyddyn? | Nac Ydw |
| Nodweddion Parhaol? | Nac Ydw  Ychwanegu Nodwedd Barhaol |
| Gwybodaeth Ychwanegol | |

Yn ôl    Cofrestru Mwy o Dir    Parhau

Os ydych yn fodlon bod popeth yn gywir, gallwch naill ai Ychwanegu Nodwedd Barhaol os oes rhai yn y parsel tir hwn, Cofrestru Mwy o Dir os ydych yn cofrestru mwy o barseli, neu glicio Parhau.

Yn ôl i’r Cynnwys

## Cynnal Ffiniau


Gallwch ddefnyddio'r Weithred Cynnal Ffiniau i roi gwybod inni am y newidiadau rydych am eu gwneud i'ch holl ffiniau.

Rhaid ichi lenwi cais Rheoli fy Nhir ar wahân ar gyfer cofnodi ffiniau a newidiwyd ar ddyddiadau gwahanol.


## Ychwanegu Ffin (Hollti Parsel Tir)

Yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?** dewiswch Cynnal Ffiniau a chlicio ar Ychwanegu Ffin (Rhannu Parsel Tir) o'r rhestr ar y gwymplen.








Rhaid i chi wedyn ddewis y parsel tir naill ai drwy roi Cyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae yn y blwch 'Chwilio...' isod neu drwy chwilio am y parsel tir ar eich map a chlicio o fewn y parsel tir i'w ddewis neu drwy ddefnyddio'r Erfyn Targedu.




## Tynnu Llinell

Dewiswch yr Offer Tynnu Llinell ar y ddewislen uwchben y map i ddangos y ffin newydd. Symudwch y cyrchwr i fan y tu allan i'r parsel tir, cliciwch a gollwng botwm chwith eich llygoden a dechrau symud y cyrchwr i groesi'r parsel tir yn y man lle mae'r ffin newydd yn dechrau. Yna symudwch y cyrchwr i dynnu llinell y ffin newydd. Cliciwch y botwm chwith i newid cyfeiriad nes y byddwch chi wedi tynnu llinell y ffin newydd yn gyfan, gan orffen drwy glicio ddwywaith ar bwynt y tu allan i'r parsel tir unwaith y byddwch wedi croesi'r man lle mae'r ffin newydd yn gorffen. Os hoffech aildynnu llinell y ffin, gallwch wneud hynny, a chaiff eich llinell wreiddiol ei dileu.




## Offer Braslunio


Fel arall, defnyddiwch yr Offer Braslunio i ddangos y ffin newydd. I wneud hynny, dewiswch Braslunio ar y ddewislen uwchben y map. Symudwch y cyrchwr i'r man lle rydych am ddechrau tynnu'r llinell, y tu allan i'r parsel tir. Cliciwch y botwm chwith a dal eich bys arno wrth ichi symud y llygoden i dynnu llinell y ffin newydd ar draws y parsel tir. Gofalwch eich bod yn gorffen tynnu'r ffin newydd trwy groesi ffin bresennol y parsel wrth y man lle mae'r ffin newydd yn gorffen cyn ichi godi'ch bys oddi ar fotwm y llygoden. Os hoffech aildynnu llinell y ffin, gallwch wneud hynny, a chaiff eich llinell wreiddiol ei dileu.




Caiff y ddau gae newydd eu dangos ar y map a chaiff Maint y ddau Fraslun eu cyfrif a'u dangos yn y ffenest ar ochr chwith uchaf y sgrin.


Gallwch nawr ddewis Gorffen ac Ychwanegu Ffin Arall os ydych am rannu'r parsel hwn a pharseli eraill, neu pwyswch ar Gorffen Ychwanegu Ffin os nad oes gennych ragor o barseli i'w rhannu.

Wedi ichi orffen, bydd y parseli tir yn cael eu dangos fel a ganlyn.




## Dileu Ffin (Uno Parseli Tir)


Yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?** dewiswch Cynnal Ffiniau a chlicio ar Dileu Ffin (Uno Parseli Tir) o'r rhestr ar y gwymplen.




Rhaid i chi wedyn ddewis un o'r parseli tir fydd yn cael ei uno naill ai drwy roi Cyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae yn y blwch 'Chwilio...' isod, chwilio am y parsel tir ar eich map a chlicio o fewn y parsel tir i'w ddewis neu drwy ddefnyddio'r Erfyn Targedu.





Yna rhaid dewis y parsel(i) tir sy'n rhannu'r ffin/ffiniau rydych am eu dileu. Wrth ichi ychwanegu parseli tir, bydd y map yn eu dangos fel a ganlyn, a bydd rhifau'r parseli tir yn ymddangos ar y ffenest ar ochr chwith ucha'r sgrin gan gyfrif maint y parsel tir sydd newydd ei uno.





Nawr, gallwch ddewis naill ai Dileu Ffin Arall os ydych yn uno parseli tir eraill neu Gorffen Dileu Ffiniau os oes gennych fwy nag un parsel tir i'w huno.

Wedi ichi orffen, bydd y parseli tir yn cael eu dangos fel a ganlyn.




## Symud Ffin


Yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?** dewiswch Cynnal Ffiniau a chlicio ar Symud Ffin o'r rhestr ar y gwymplen.




Rhaid i chi wedyn ddewis parsel tir sy'n rhannu'r ffin rydych am ei symud naill ai drwy roi Cyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae yn y blwch 'Chwilio.' isod, chwilio am y parsel tir ar eich map a chlicio o fewn y parsel tir i'w ddewis neu drwy ddefnyddio'r Erfyn Targedu.





Yna rhaid ichi ddewis y parsel tir sy'n rhannu'r ffin rydych am ei symud. Bydd y map yn dangos fel a ganlyn a bydd rhifau'r parseli tir yn ymddangos yn y ffenest ar ochr chwith ucha'r sgrin.





## Tynnu Llinell

Dewiswch yr Offer Tynnu Llinell ar y ddewislen uwchben y map i ddangos y ffin newydd. Symudwch y cyrchwr i fan y tu allan i'r parsel tir, cliciwch a gollwng botwm chwith eich llygoden a dechrau symud y cyrchwr i groesi'r parsel tir yn y man lle mae'r ffin newydd yn dechrau. Yna symudwch y cyrchwr i dynnu llinell y ffin newydd. Cliciwch y botwm chwith i newid cyfeiriad nes y byddwch chi wedi tynnu llinell y ffin newydd yn gyfan, gan orffen drwy glicio ddwywaith ar bwynt y tu allan i'r parsel tir unwaith y byddwch wedi croesi'r man lle mae'r ffin newydd yn gorffen. Os hoffech aildynnu llinell y ffin, gallwch wneud hynny, a chaiff eich llinell wreiddiol ei dileu.



**Offer Braslunio**


Fel arall, defnyddiwch yr Offer Braslunio i ddangos y ffin newydd. I wneud hynny, dewiswch Braslunio ar y ddewislen uwchben y map. Symudwch y cyrchwr i'r man lle rydych am ddechrau tynnu'r llinell, y tu allan i'r parsel tir. Cliciwch y botwm chwith a dal eich bys arno wrth ichi symud y llygoden i dynnu llinell y ffin newydd ar draws y parsel tir. Gofalwch eich bod yn gorffen tynnu'r ffin newydd trwy groesi ffin bresennol y parsel wrth y man lle mae'r ffin newydd yn gorffen cyn ichi godi'ch bys oddi ar fotwm y llygoden. Os hoffech aildynnu llinell y ffin, gallwch wneud hynny, a chaiff eich llinell wreiddiol ei dileu.




Caiff y parseli tir eu dangos nawr fel 2 barsel newydd, a chaiff Maint pob Braslun ei cyfrif a'i ddangos yn y ffenest ar ochr ucha'r sgrin.

Gallwch nawr ddewis Symud Ffin Arall neu Gorffen Symud Ffiniau os nad oes gennych ragor o ffiniau i'w symud.

Wedi ichi orffen, bydd y parseli tir yn cael eu dangos fel a ganlyn.





Yn ôl i'r Cynnwys

## Cynnal nodweddion parhaol ar ôl newid ffin


Os ydych chi'n newid un o'ch ffiniau gan hollti nodwedd barhaol, rhaid ichi adolygu'r nodweddion parhaol yn y ddau barsel tir, fel a ganlyn.

Mae'r parsel tir a ddangosir isod yn cael ei rannu'n ddau barsel ac mae'r coetir yn cael ei rannu rhwng y ddau barsel.




Ar ôl hollti'r parsel tir (mae'r canllaw hwn yn esbonio sut), cliciwch 'Gorffen Ychwanegu Ffin' neu' Gorffen ac Ychwanegu Ffin Arall' (neu'r botwm cyfatebol os ydych yn symud ffin).

Unwaith y byddwch wedi gorffen newidiadau Cynnal Ffiniau, cliciwch ar Gorffen Cynnal Caeau.




.

Yn y Crynodeb Cynnal Ffiniau, rhowch Ddyddiad y Newid, y Maint a Ddatganwyd pob parsel tir ac unrhyw Wybodaeth Ychwanegol.

### Crynodeb Cynnal Ffiniau

Rhaid ateb pob eitem sydd â *. Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.

**Dyddiad y Newid** * [redacted]

**Gwybodaeth Ychwanegol** (dim mwy na 255 o nodau)

0 / 255

Y Parseli Tir Gwreiddiol sydd wedi'u cynnal.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Cae (ha) | Maint Cyfan y Nodwedd Barhaol (ha) | Â'r hawl i newid? |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 1.74 | 0.16 | |

Canlyniadau'ch gwaith cynnal ffiniau.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Braslun (ha) | Maint a ddatganwyd (ha) | |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 0.91 | 0.91 | Gweld |
| [redacted] | [redacted] | 0.84 | 0.84 | Gweld |

Yn ôl | Parhau

Gallwch adolygu unrhyw barseli tir, gan gynnwys nodweddion parhaol, trwy glicio'r botwm Gweld perthnasol. Fel arall, os ydych wedi gorffen â'r sgrin hon, cliciwch Parhau.

Os ydych wedi clicio Gweld, bydd y sgrin Gweld Parsel Tir yn dangos map a manylion y parsel tir, gan gynnwys y nodwedd barhaol. Os oes unrhyw fanylion yn anghywir ac angen eu newid, cliciwch Yn ôl i fynd yn ôl i'r Crynodeb Cynnal Ffiniau.

### Gweld Parsel Tir - [redacted]

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod y Ddalen | [redacted] |
| Rhif y Cae | [redacted] |
| Maint y Cae | 0.91 ha |
| Maint a ddatganwyd | 0.91 ha |

| Math o Nodwedd | Maint a Gyfrifwyd (ha) | Maint a ddatganwyd (ha) |
|---|---|---|
| ZZ11 - Woodland - broadleaf - group | 0.09 | 0.09 |




Yn ôl


Yna cliciwch Parhau i fynd i'r sgrin Crynodeb.

Yn y Crynodeb, bydd angen ichi edrych ar bob tab i wneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn gywir.  Ar y tab Cynnal Ffiniau, gallwch naill ai clicio Gweld / Newid i newid rhywbeth, neu clicio'r botwm Adolygu ar gyfer parseli tir unigol.

Yn yr enghraifft hon, mae'r nodwedd barhaol wedi cael ei hollti'n awtomatig ac felly, nid oes angen ichi eu newid oni bai'ch bod yn anghytuno â'r arwynebedd. Os yw'r arwynebedd yn gywir, cliciwch Datgan a Chyflwyno i fynd yn eich blaen ar ôl ichi edrych ar yr holl dabiau Crynodeb.





Os ydych wedi clicio Gweld/Newid, fe welwch y sgrin uchod.  Gallwch newid Dyddiad y Newid neu'r Maint a Ddatganwyd ar y sgrin hon, neu clicio Gweld/Newid os oes angen newid nodwedd barhaol.




Os ydych wedi clicio Newid/Gweld, fe welwch y sgrin isod. Cliciwch Newid Nodweddion Parhaol os oes angen eu newid, neu cliciwch Yn ôl i fynd yn ôl i'r Crynodeb Cynnal Ffiniau.




Gallwch nawr glicio Newid i newid arwynebedd y nodwedd barhaol, neu glicio Dileu os nad yw'r nodwedd barhaol yn bodoli mwyach yn y parsel tir hwn.





Os ydych yn clicio Newid, fe welwch y sgrin uchod, a byddwch yn gallu gwneud y newidiadau sydd eu hangen h.y. ail-luniadu'r nodwedd barhaol, newid y Maint a Ddatganwyd, ychwanegu nodweddion parhaol ac ati. Cliciwch Cwblhau'r Nodwedd ar ôl ichi wneud yr holl newidiadau.




Os ydych wedi clicio i Ddileu’r nodwedd barhaol, fe welwch y sgrin isod. Os ydych am ddileu’r nodwedd barhaol, cliciwch Ydw.





Bydd y nodwedd barhaol sydd wedi’i dileu yn cael ei dangos fel uchod. Gallwch glicio Adfer os ydych wedi dileu’r nodwedd barhaol trwy ddamwain.




Cliciwch Cwblhau Parsel Tir ar ôl ichi wneud yr holl newidiadau.


Bydd y Crynodeb o'ch Nodweddion yn ymddangos eto, ac os ydy popeth yn iawn, cliciwch Parhau.




Bydd y Crynodeb yn cael ei ddangos eto, cewch nawr naill ai clicio Ychwanegu Gweithred Newydd os oes gennych bethau newydd i'w hychwanegu neu Adolygu os oes gennych ragor o newidiadau i'w gwneud, neu clicio Datgan a Chyflwyno i fynd yn eich blaen neu i edrych ar unrhyw dabiau nad ydych eto wedi'u gweld.




Ar y tab Nodweddion Parhaol, gallwch naill ai clicio Gweld/Newid i newid rhywbeth gan fynd trwy'r sgriniau uchod eto, clicio Ychwanegu Gweithred Newydd os oes gennych bethau newydd i'w hychwanegu neu clicio Datgan a Chyflwyno.



Crynodeb

Adolygwch bob gweithred. **Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.**
Mae'r groes goch yn dangos nad ydych wedi adolygu'r weithred neu fod gwall gydag o leiaf un weithred. Pan fydd tic gwyrdd wrth bob gweithred, gallwch glicio 'Datgan a Chyflwyno'.

Cynnal Ffiniau

Nodweddion parhaol

Cliciwch ar god 'Math o Nodwedd' i weld disgrifiad o'r Nodwedd Barhaol honno.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Dyddiad y Newid | Math o Nodwedd | Maint a ddatganwyd (ha) | Gweithredoedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | ZZ11 | 0.09 | Newidiwyd | Gweld/Newid |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | ZZ11 | 0.08 | Newidiwyd | Gweld/Newid |

Ychwanegu Gweithred Newydd


Datgan a Chyflwyno

[Yn ôl i'r Cynnwys]


**Nodweddion Parhaol 0.00ha ar ôl Cynnal Ffin**

Rydym nawr am esbonio beth sydd angen ichi ei wneud os ydych wedi newid ffin a bod nodwedd barhaol 0.00ha yn cael ei dangos ar eich map Rheoli fy Nhir.

Mae'r ffin newydd uchod wedi hollti'r nodwedd barhaol.




Yn y Crynodeb Cynnal Ffiniau, rhowch Ddyddiad y Newid a'r Maint a Ddatganwyd ar gyfer pob parsel tir, ac unrhyw Wybodaeth Ychwanegol.



Crynodeb Cynnal Ffiniau

Rhaid ateb pob eitem sydd â *. Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.

Dyddiad y Newid * [redacted]

**Gwybodaeth Ychwanegol** (dim mwy na 255 o nodau)

0 / 255

Y Parseli Tir Gwreiddiol sydd wedi'u cynnal.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Cae (ha) | Maint Cyfan y Nodwedd Barhaol (ha) | Â'r hawl i newid? |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 1.74 | 0.16 | |

Canlyniadau'ch gwaith cynnal ffiniau.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Braslun (ha) | Maint a ddatganwyd (ha) | |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 0.54 | 0.54 | Gweld |
| [redacted] | [redacted] | 1.21 | 1.21 | Gweld |

Yn ôl Parhau

Gallwch adolygu unrhyw barseli tir, gan gynnwys nodweddion parhaol, trwy glicio'r botwm Gweld perthnasol. Fel arall, os ydych wedi gorffen â'r sgrin hon, cliciwch Parhau.

Cliciwch Gweld, fe welwch yn y sgrin Gweld Parsel Tir uchod, arwynebedd y nodwedd barhaol yn y parsel hwn yw 0.00ha.




Gweld Parsel Tir - [redacted]

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod y Ddalen | [redacted] |
| Rhif y Cae | [redacted] |
| Maint y Cae | 1.16 ha |
| Maint a ddatganwyd | 1.21 ha |

| Math o Nodwedd | Maint a Gyfrifwyd (ha) | Maint a ddatganwyd (ha) |
|---|---|---|
| ZZ11 - Woodland - broadleaf - group | 0.00 | 0.00 |

Yn ôl

Cliciwch Yn ôl i fynd yn ôl i'r Crynodeb Cynnal Ffiniau. Galwch wedyn glicio Parhau i weld y sgriniau Crynodeb.



Crynodeb

Adolygwch bob gweithred. **Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.**
Mae'r groes goch yn dangos nad ydych wedi adolygu'r weithred neu fod gwall gydag o leiaf un weithred. Pan fydd tic gwyrdd wrth bob gweithred, gallwch glicio 'Datgan a Chyflwyno'.

Cywirwch y gwallau cyn parhau

Cynnal Ffiniau
Nodweddion parhaol

**Dyddiad y Newid** [redacted] Gweld/Newid

Y Parseli Tir Gwreiddiol sydd wedi'u cynnal.


| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Cae (ha) | Maint Cyfan y Nodwedd Barhaol (ha) |
|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 1.74 | 0.16 |

Canlyniadau'ch gwaith cynnal ffiniau.


| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Braslun (ha) | Maint a ddatganwyd (ha) | Maint Cyfan y Nodwedd Barhaol (ha) | |
|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 0.54 | 0.54 | 0.16 | Adolygu |
| [redacted] | [redacted] | 1.21 | 1.21 | | Adolygu |

- Mae mwy nag un camgymeriad yn y Weithred hon. Cliciwch Gweld/Newid i'w cywiro.


Ychwanegu Gweithred Newydd | Datgan a Chyflwyno




Yn y tab Nodweddion Parhaol ar sgrin y Crynodeb, y Maint a Ddatganwyd ar gyfer y nodwedd barhaol yn y parsel tir cyntaf yw 0.00ha.  Felly bydd neges gwall yn ymddangos. Naill ai cliciwch Adolygu ar y tab Cynnal Ffiniau neu Gweld/Newid ar y tab Nodweddion Parhaol ar gyfer y parsel tir hwn.





Yn y Crynodeb o'ch Nodweddion Parhaol, cliciwch Newid.




Os ydy'r nodwedd barhaol yn y parsel tir hwn yn llai na 0.005ha, dylech glicio Dileu i'w ddileu.





Os ydych wedi clicio i Ddileu'r nodwedd barhaol, fe welwch y sgrin uchod. Os ydych am ddileu'r nodwedd barhaol, cliciwch Ydw.




Bydd y nodwedd barhaol a gafodd ei dileu yn cael ei dangos nawr fel yr uchod.  Gallwch glicio Adfer os ydych wedi dileu’r nodwedd barhaol trwy ddamwain.

Cliciwch Cwblhau Parsel Tir ar ôl ichi wneud yr holl newidiadau.





Ond os yw’r nodwedd barhaol yn 0.005ha neu fwy, cliciwch Newid.  (Dylech dalgrynnu nodweddion 0.005ha i 0.01ha).




Os ydy’r nodwedd barhaol nawr yn fwy na’r nodwedd ar y map, defnyddiwch yr Erfyn ‘Lluniadu’r Arwynebedd’ neu ‘Braslunio’ i’w gwneud yn fwy. Ychwanegwch y Maint a Ddatganwyd a chlicio Cwblhau’r Nodwedd os mai dyma’r unig newid neu cliciwch Ychwanegu Un Arall os oes angen ychwanegu nodwedd barhaol arall.


Os ydy’r nodwedd barhaol nawr yn gywir ond ei bod yn fwy na Maint y Braslun, nodwch y Maint a Ddatganwyd a chlicio Cwblhau’r Nodwedd os mai dyma’r unig newid neu cliciwch Ychwanegu Un Arall os oes angen ychwanegu nodwedd barhaol arall.




Cliciwch Cwblhau Parsel Tir ar ôl ichi wneud yr holl newidiadau.




Fe welwch nawr Grynodeb o’ch Nodweddion Parhaol. Os ydy popeth yn gywir, cliciwch Parhau neu gliciwch Yn ôl i gywiro unrhyw wallau sydd ar ôl.




Bydd y Crynodeb nawr yn dangos y newidiadau rydych wedi'u gwneud, a bydd naill ai'r Maint a Ddatganwyd yn fwy (fel yn yr enghraifft hon) neu bydd nodwedd barhaol wedi'i dileu.

Os ydy popeth nawr yn gywir yn y Crynodeb, cliciwch Datgan a Chyflwyno i fynd yn eich blaen.

Yn ôl i'r Cynnwys


**Clirio mwy nag un gwall**

Os oes sawl gwall ar yr un parsel tir, bydd yn rhaid ichi eu clirio i gyd cyn cael mynd yn eich blaen.


Yn yr enghraifft isod, mae'r parsel tir hwn wedi'i ddewis er mwyn cael ei hollti'n ddau barsel tir ar hyd llinell y coed.





Mae'r ffin newydd wedi'i chreu, gan hollti'r parsel tir yn ddwy. Cliciwch Gorffen Ychwanegu Ffin i fynd yn eich blaen.



Bydd y parceli sy wedi cael i hollti yn ymddangos yn las fel y dangosir isod. Cliciwch ar Gorffen Cynnal Caeau.




Yn y Crynodeb Cynnal Ffiniau, rhowch Ddyddiad y Newid a'r Maint a Ddatganwyd, ac yna clicio Parhau.



Crynodeb Cynnal Ffiniau

Rhaid ateb pob eitem sydd â *. Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.

**Dyddiad y Newid** * [redacted]

**Gwybodaeth Ychwanegol** (dim mwy na 255 o nodau)

0 / 255

Y Parseli Tir Gwreiddiol sydd wedi'u cynnal.


| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Cae (ha) | Maint Cyfan y Nodwedd Barhaol (ha) | Â'r hawl i newid? |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 1.74 | 0.16 | |

Canlyniadau'ch gwaith cynnal ffiniau.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Braslun (ha) | Maint a ddatganwyd (ha) | |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 0.16 | 0.16 | Gweld |
| [redacted] | [redacted] | 1.59 | 1.59 | Gweld |

Yn ôl | Parhau

Mae'r tab Nodweddion Parhaol yn y Crynodeb yn dangos, gan ei bod yn anodd dilyn llinell y coed yn gywir, bod nifer o nodweddion parhaol yn y parsel tir nad ydyn nhw wir yn bodoli. Cliciwch Gweld/Newid ar gyfer y parsel tir sy'n 0.00ha.



Crynodeb

Adolygwch bob gweithred. **Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.**
Mae'r groes goch yn dangos nad ydych wedi adolygu'r weithred neu fod gwall gydag o leiaf un weithred. Pan fydd tic gwyrdd wrth bob gweithred, gallwch glicio 'Datgan a Chyflwyno'.

Cywirwch y gwallau cyn parhau

Cynnal Ffiniau
Nodweddion parhaol


Cliciwch ar god 'Math o Nodwedd' i weld disgrifiad o'r Nodwedd Barhaol honno.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Dyddiad y Newid | Math o Nodwedd | Maint a ddatganwyd (ha) | Gweithredoedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | ZZ11 | 0.15 | Newidiwyd | Gweld/Newid |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | ZZ11 | 0.00 | Newidiwyd | Gweld/Newid |
| | | | ZZ11 | 0.00 | Newidiwyd | |
| | | | ZZ11 | 0.00 | Newidiwyd | |
| | | | ZZ11 | 0.00 | Newidiwyd | |

- Mae mwy nag un camgymeriad yn y Weithred hon. Cliciwch Gweld/Newid i'w cywiro.

Ychwanegu Gweithred Newydd | Datgan a Chyflwyno

Yn y Crynodeb o'ch Nodweddion Parhaol, cliciwch Newid.



Crynodeb o'ch Nodweddion Parhaol


Mae gwallau wrth y weithred hon a rhaid eu cywiro.

Cyfeirnod y Ddalen [redacted]
Gwybodaeth Ychwanegol


| Math o Nodwedd | Arwynebedd (ha) | Gweithredoedd |
|---|---|---|
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Newidiwyd |
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Newidiwyd |
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Newidiwyd |
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Newidiwyd |

Yn ôl | Newid


Nawr, fe welwch y nodweddion parhaol sydd â gwall ynddyn nhw fel yr isod. Bydd angen ichi Ddileu neu Newid yr holl nodweddion parhaol sydd â gwall. Yn yr enghraifft hon, mae angen dileu pob nodwedd barhaol 0.00ha gan nad ydyn nhw'n bod yn y parsel tir hwn. Cliciwch Dileu wrth y nodwedd barhaol gyntaf.





Bydd y neges isod yn cael ei ddangos. Cliciwch Ydw




Mae'r nodwedd parhaol cynta wedi cael ei ddileu.




Pan fydd yr holl nodweddion parhaol anghywir wedi'u dileu, cliciwch Cwblhau Parsel Tir.




Bydd y Crynodeb o'ch Nodweddion Parhaol nawr yn dangos bod y nodweddion parhaol wedi'u dileu. Cliciwch Parhau.


### Crynodeb o'ch Nodweddion Parhaol

Cyfeirnod y Ddalen [redacted]
Rhif y Cae [redacted]
Dyddiad y Newid [redacted]
Gwybodaeth Ychwanegol

| Math o Nodwedd | Arwynebedd (ha) | Gweithredoedd |
|---|---|---|
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Dilëwyd |
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Dilëwyd |
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Dilëwyd |
| ZZ11 - Coetir - llydanddail - grŵp | 0.00 | Dilëwyd |

Yn ôl    Parhau

Edrychwch ar bob tab ar sgrin y Crynodeb ac os nad oes rhagor o wallau, cliciwch Datgan a Chyflwyno. Y sgrin nesaf welwch chi fydd y sgrin Datganiadau ac Ymrwymiadau ac yna byddwch yn gallu cyflwyno'ch cais Rheoli fy Nhir.



Crynodeb

Adolygwch bob gweithred. **Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.**
Mae'r groes goch yn dangos nad ydych wedi adolygu'r weithred neu fod gwall gydag o leiaf un weithred. Pan fydd tic gwyrdd wrth bob gweithred, gallwch glicio 'Datgan a Chyflwyno'.

Cynnal Ffiniau

Nodweddion parhaol

Cliciwch ar god 'Math o Nodwedd' i weld disgrifiad o'r Nodwedd Barhaol honno.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Dyddiad y Newid | Math o Nodwedd | Maint a ddatganwyd (ha) | Gweithredoedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | ZZ11 | 0.15 | Newidiwyd | Gweld/Newid |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | ZZ11 | 0.00 | Dilëwyd | Gweld/Newid |
| | | | ZZ11 | 0.00 | Dilëwyd | |
| | | | ZZ11 | 0.00 | Dilëwyd | |
| | | | ZZ11 | 0.00 | Dilëwyd | |

Ychwanegu Gweithred Newydd | Datgan a Chyflwyno

Yn ôl i'r Cynnwys

**Parseli Tir Cofrestredig heb eu cofnodi fel rhan o'ch daliad**


Os oes angen cynnal Gweithred Cynnal Ffin arnoch ar barsel tir sydd wedi'i gofrestru ond nad oes gennym fanylion pwy sy'n ei ddal, rhaid ichi yn gyntaf roi manylion daliadaeth y tir fel y gwnaethom esbonio hynny yn adran Trosglwyddo Tir i Mewn y canllaw hwn.

Os gwnaethoch roi manylion daliadaeth y parseli tir inni o'r blaen ac nad ydyn nhw'n ymddangos ar eich map, gallwch gynnal Gweithred Cynnal Ffin gan ddefnyddio'r Erfyn Targedu.

Erfyn Targedu:

Dilynwch y cyfarwyddiadau yn yr adran hon ar gyfer y math o waith Cynnal Ffin rydych am ei gynnal, a chliciwch ar yr Erfyn Targedu, ac yna ar y parsel tir nad yw'n cael ei ddangos ei fod yn rhan o'ch daliad i ddewis y parsel tir hwnnw.

Ar ôl ichi orffen eich holl Weithredoedd Cynnal Ffiniau, bydd angen ichi gadarnhau bod gennych yr hawl i newid y parsel tir ar y sgrin ganlynol.


Crynodeb Cynnal Ffiniau

Rhaid ateb pob eitem sydd â *. Gofalwch fod y manylion isod, gan gynnwys maint a lleoliad Nodweddion Parhaol, yn gywir.

**Dyddiad y Newid** * [redacted]

**Gwybodaeth Ychwanegol** (dim mwy na 255 o nodau)

0 / 255

Cadarnhau yr Hawl i Newid

Nid oes gennym gofnod eich bod yn berchen ar un neu fwy o'r Parseli Tir gwreiddiol na'u bod ar gael ichi eu defnyddio. Rydym wedi marcio'r Parseli Tir dan sylw â chroes goch ar y rhestr o Barseli Tir Gwreiddiol isod.

Os ydym yn anghywir, rhowch fanylion gan gynnwys y math o ddaliadaeth, dyddiadau prynu neu rentu, oddi wrth bwy y gwnaethoch ei brynu neu ei rentu a thicio'r blwch isod. (Os ydych am gyflwyno dogfennau ategol, gwnewch hynny trwy'r sgrin Negeseuon ar ôl ichi gyflwyno'ch newidiadau Rheoli fy Nhir).

**Rwy'n cadarnhau fod gennyf yr Hawl i Newid yr holl Barseli Tir Gwreiddiol ar y rhestr isod.**

Rhaid ichi dicio'r blwch i ddangos bod gennych yr Hawl i Newid yr holl Barseli Tir rydych yn newid eu ffiniau.

Y Parseli Tir Gwreiddiol sydd wedi'u cynnal.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Cae (ha) | Maint Cyfan y Nodwedd Barhaol (ha) | Â'r hawl i newid? |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 1.61 | | ✗ |
| [redacted] | [redacted] | 0.40 | | ✗ |
| [redacted] | [redacted] | 5.49 | 0.01 | ✗ |

Canlyniadau'ch gwaith cynnal ffiniau.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Braslun (ha) | Maint a ddatganwyd (ha) | |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 7.51 | 7.51 | Gweld/Newid |

Newid Ffiniau | Dileu'r Weithred | Parhau

Os oes gennych yr hawl i wneud newidiadau, rhaid ichi dicio'r blwch ac ychwanegu unrhyw fanylion perthnasol yn y blwch Gwybodaeth Ychwanegol. Cyflwynwch unrhyw ddogfennau ategol gan ddefnyddio'ch tab Negeseuon.


Yn ôl i'r Cynnwys

**Cywiro Ffiniau Parseli Tir sydd heb eu Cofrestru**


Os gwelwch nad ydym wedi mapio'n gywir un neu fwy o ffiniau'ch parseli tir sy'n ffinio â thir heb ei gofrestru, cewch roi gwybod inni am hynny trwy ddefnyddio'r Erfyn Targedu.

Erfyn Targedu: 


Gan ddefnyddio'r opsiwn Symud Ffin, dewiswch y parsel tir sydd â'r ffin anghywir.




Yna cliciwch ar eicon yr Erfyn Targedu. Symudwch y cyrchwr i fan y tu allan i'r parsel tir sydd nesaf at y ffin anghywir a chlicio. Caiff darn o'r map ei uwcholeuo a gallwch dynnu llinell o fewn y darn hwn i ddangos y ffin gywir.





Gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar gyfer Tynnu Llinell neu ddefnyddio'r Erfyn Braslunio, gallwch nawr dynnu'r ffin gywir. Rhaid i'ch llinell ddechrau a gorffen y tu allan i'r parsel tir sydd ar y map a'r darn sydd wedi'i uwcholeuo fel y'u gwelir ar y sgrin ganlynol. Os mai hon yw'r unig ffin sydd angen ei newid, cliciwch ar Gorffen Symud Ffiniau i gwblhau'r ffin newydd.




Bydd maint newydd braslun y parsel tir yn cael ei ddangos yn y ffenest yng nghornel chwaith ucha'r sgrin.

Rhaid ichi nawr ddewis naill ai Symud Ffin Arall neu Gorffen Symud Ffiniau.  Wedi ichi orffen, bydd y parseli tir yn cael eu dangos fel a ganlyn.





Ar ôl ichi orffen eich holl Weithredoedd Cynnal Ffiniau, cliciwch ar y botwm Gorffen Cynnal Ffiniau.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)


## Crynodeb Cynnal Caeau

Mae’r Crynodeb Cynnal Caeau’n dangos manylion yr holl newidiadau rydych wedi’u gwneud i ffiniau.  Ar dop y crynodeb, rhaid ichi gadarnhau dyddiad y newid a rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol sy’n berthnasol i’r ffiniau rydych wedi’u newid.




Mae ochr chwith isa’r crynodeb yn dangos y Parseli Tir Gwreiddiol sydd wedi cael eu newid h.y. y parseli tir fel yr oeddynt cyn y newidiadau rydych yn eu datgan.  Mae’r ochr dde isa’n dangos canlyniadau’ch gwaith cynnal h.y. y parseli tir fel ag y maen nhw ar ôl eu newid.  Rydym yn dangos Maint pob Braslun, a rhaid ichi ddatgan y Maint sydd wedi’i Ddatgan.

Os oes angen gweld parsel tir arnoch cyn datgan y Maint, gallwch dewis y botwm ‘Gweld’ ac fe welwch y sgrin ganlynol.



Cliciwch Yn ôl i fynd yn ôl i'r Crynodeb Cynnal Ffiniau neu cliciwch ar y botwm Ychwanegu Nodwedd Barhaol os oes angen.  Pwysig: Ni welwch y botwm Ychwanegu Nodwedd Barhaol ar y sgrin tan ichi weld y brif sgrin Crynodeb.

Os ydy'r ffiniau rydych wedi'u newid yn effeithio ar barseli tir nad oes gennym gofnod eu bod yn rhan o'ch daliad chi, rhaid ichi gadarnhau bod gennych yr hawl i wneud y newid dan sylw.  Byddwn yn marcio'r parseli tir â chroes goch ar y rhestr o Barseli Tir Gwreiddiol.

Y Parseli Tir Gwreiddiol sydd wedi'u cynnal.

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Cae (ha) | Maint Cyfan y Nodwedd Barhaol (ha) | Â'r hawl i newid? |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | 2.01 | | |
| [redacted] | [redacted] | 0.81 | | |
| [redacted] | [redacted] | 1.07 | | |
| [redacted] | [redacted] | 3.40 | | ✖ |
| [redacted] | [redacted] | 5.49 | 0.01 | ✖ |

Os ydych wedi cynnwys unrhyw barseli tir trwy gamgymeriad, bydd angen ichi ddileu'r Weithred Cynnal Ffin ac ychwanegu un newydd gyda'r parseli tir cywir.

Os ydych chi'n berchen ar y parseli tir yr effeithir arnyn nhw, neu'n eu rhentu, a'ch bod wedi rhoi manylion eich daliadaeth inni eisoes, rhaid ichi dicio'r blwch yn y darn 'Cadarnhau yr Hawl i Newid' gan roi unrhyw wybodaeth berthnasol yn y blwch Gwybodaeth Ychwanegol.

Cadarnhau yr Hawl i Newid

Nid oes gennym gofnod eich bod yn berchen ar un neu fwy o'r Parseli Tir gwreiddiol na'u bod ar gael ichi eu defnyddio. Rydym wedi marcio'r Parseli Tir dan sylw â chroes goch ar y rhestr o Barseli Tir Gwreiddiol isod.

Os ydym yn anghywir, rhowch fanylion gan gynnwys y math o ddaliadaeth, dyddiadau prynu neu rentu, oddi wrth bwy y gwnaethoch ei brynu neu ei rentu a thicio'r blwch isod. (Os ydych am gyflwyno dogfennau ategol, gwnewch hynny trwy'r sgrin Negeseuon ar ôl ichi gyflwyno'ch newidiadau Rheoli fy Nhir).

**Rwy'n cadarnhau fod gennyf yr Hawl i Newid yr holl Barseli Tir Gwreiddiol ar y rhestr isod.** ☐

Rhaid ichi dicio'r blwch i ddangos bod gennych yr Hawl i Newid yr holl Barseli Tir rydych yn newid eu ffiniau.


Byddwch wedyn yn gallu clicio Parhau i fynd yn eich blaen. Cyflwynwch unrhyw ddogfennau ategol gan ddefnyddio'ch tab Negeseuon.

Yn ôl i'r Cynnwys


**Ychwanegu / Cadw Nodweddion Parhaol**

Gallwch naill ai ychwanegu nodweddion parhaol wrth gofrestru parsel newydd o dir, neu eu hychwanegu at barsel sy'n bodoli'n barod.


Os ydych yn eu hychwanegu fel rhan o gofrestriad, dewiswch Ychwanegu Nodweddion Parhaol ar y sgrin ganlynol.





Os ydych yn eu hychwanegu at barsel tir sy'n bodoli'n barod, yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?** dewiswch ‘Cadw Nodwedd Barhaol’. Ni chewch ychwanegu nodweddion parhaol newydd at barsel tir sy'n bodoli'n barod fel rhan o’r un Weithred oni bai eu bod yn bresennol yn y parsel tir o'r un diwrnod. Fel arall, bydd angen i chi ychwanegu rhai newydd fel Gweithred wahanol.





Rhaid i chi wedyn ddewis y parsel tir naill ai drwy roi Cyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae yn y blwch ‘Chwilio....’ isod neu drwy chwilio am y parsel tir ar eich map a chlicio o fewn y parsel tir i’w ddewis.




Os ydych chi wedi dewis Ychwanegu Nodwedd Barhaol, bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos.




Dewiswch Ychwanegu Nodwedd ar y ddewislen uwchben y map a dewis y math o nodwedd o'r gwymplen.



Pan fyddwch wedi dewis y Math o Nodwedd y mae angen i chi ei dangos, cliciwch Parhau.





**Lluniadu'r Nodwedd**

Yna gallwch luniadu'r nodwedd barhaol ac ychwanegu'r Maint rydych yn ei ddatgan. Mae angen i'r rhan fwyaf o nodweddion parhaol gael eu lluniadu fel siâp. Symudwch y cyrchwr i'r man lle rydych am ddechrau lluniadu, clicio a gollwng botwm chwith eich llygoden, a dechrau symud y cyrchwr i ffurfio'ch siâp. Cliciwch y botwm ochr chwith i newid cyfeiriad nes byddwch chi wedi lluniadu siâp y parsel tir, gan orffen drwy glicio unwaith ar y man cychwyn.

Pan fyddwch chi wedi gorffen, bydd Maint y Braslun yn cael ei gyfrif ac yn ymddangos yn y ffenestr yng nghornel chwith uchaf y sgrin. Ychwanegwch y Maint y nodwedd barhaol rydych yn ei datgan ac, os ydych chi wedi gorffen, cliciwch Cwblhau'r Nodwedd. Os oes gennych chi nodweddion parhaol eraill i'w hychwanegu at yr un parsel tir, cliciwch Ychwanegu Un Arall yn lle hynny, a chlicio Cwblhau'r Nodwedd pan fyddwch chi wedi ychwanegu'r holl nodweddion parhaol ar gyfer y parsel tir.

Os oes gennych nifer o nodweddion parhaol o'r un math mewn parsel o dir sydd naill ai'n llai na 0.01ha bob un neu o'u rhoi gyda'i gilydd yn 0.01ha neu fwy (e.e. tylcau), rhaid ichi naill ai:


- eu lluniadu bob yn un a datgan eu Maint a Ddatganwyd fel cyfanswm. neu
- tynnu llinell o gwmpas yr holl nodweddion, datgan y Maint a chynnwys sylw sy'n cadarnhau eu bod yn nodweddion bach unigol.




Os ydych yn ychwanegu unrhyw un o'r nodweddion parhaol canlynol, fydd dim angen ichi wneud siâp ar eu cyfer:

YY16 – Coetir – boncyffion a bonion
YY21 – Rhedyn – gwasgarog
YY23 – Prysgwydd / Eithin / Mieri – gwasgarog
YY41 – Sgri / creigiau / cnycau / tywod – gwasgarog

Yn hytrach, bydd yn rhaid ichi glicio lleoliad y nodwedd wasgarog ar y map a bydd dot gwyn yn ymddangos, fel y gwelir isod. Bydd yn rhaid ichi gadarnhau Maint rydych wedi'i ddatgan ar gyfer y nodwedd, a chlicio Cwblhau'r Nodwedd. Os oes mwy nag un llain o nodweddion gwasgarog, amrywiol eu ddwysedd, bydd angen ichi wneud hyn eto ar gyfer pob llain.




Bydd y nodwedd(ion) parhaol rydych wedi'u dangos yn ymddangos fel y gwelir isod ar y map (bydd y symbolau'n amrywio, gan ddibynnu ar y Math o Nodwedd), a bydd y manylion yn ymddangos yn y ffenestr yng nghornel chwith uchaf y sgrin. Bydd yn bosibl ichi ychwanegu, newid neu ddileu unrhyw nodweddion parhaol os ydych chi wedi gwneud camgymeriad.




Ar ôl ichi orffen ychwanegu nodweddion parhaol, cliciwch Cwblhau Parsel Tir. Os ydych chi'n gweithio ar barsel o dir sy'n bod eisoes hytrach nag un sydd newydd ei gofrestru, bydd angen ichi ychwanegu'r Dyddiad Newid i gadarnhau dyddiad creu'r nodweddion parhaol newydd, yn ogystal ag unrhyw Wybodaeth Ychwanegol a chlicio Parhau.


Nodweddion Parhaol - Manylion Ychwanegol


Dyddiad y Newid * 06/07/2017

Gwybodaeth Ychwanegol (dim mwy na 255 o nodau)

0 / 255

Yn ôl Parhau

Bydd Crynodeb o'ch Nodweddion Parhaol yn ymddangos.


Crynodeb o'ch Nodweddion Parhaol

Cyfeirnod y Ddalen [redacted]
Rhif y Cae [redacted]
Dyddiad y Newid
Gwybodaeth Ychwanegol


| Math o Nodwedd | Arwynebedd (ha) | Gweithredoedd |
|---|---|---|
| ZZ89 - Adeiladau a Buarthau | 0.08 | Newydd |
| YY23 - Prysgwydd / Eithin / Mieri - gwasgarog | 0.02 | Newydd |

Yn ôl Dileu'r Weithred Newid

Os bydd unrhyw beth yn anghywir yn y crynodeb, cliciwch Yn ôl i'w gywiro.  Os yw popeth yn gywir, cliciwch Wedi Cwblhau a bydd crynodeb o'ch manylion ar gyfer Rheoli fy Nhir yn ymddangos.

**Crynodeb**

Mae'r sgrin Crynodeb yn rhestru'r Gweithredoedd a ychwanegwyd ar gyfer y cais hwn.




Mae croes goch yn dangos nad ydych wedi edrych ar dab neu fod gwall ynddo.  Rhaid cywiro pob gwall cyn ei gyflwyno.  Mae tic gwyrdd yn dangos eich bod wedi gweld y tab ac nad oes gwall, hyd y gwyddom ni.

Gallwch weld neu newid unrhyw Weithred.


Os oes gennych Weithredoedd eraill i'w hychwanegu, cliciwch 'Ychwanegu Gweithred Newydd'.

Ar ôl ichi ychwanegu'r holl Weithredoedd rydych yn rhoi gwybod inni amdanyn nhw a gweld pob tab Crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar 'Datgan a Chyflwyno.


Yn ôl i'r Cynnwys

## Sylwadau

Os ydych am roi gwybod i ni am rywbeth, gallwch ychwanegu sylwadau drwy ddewis Ychwanegu Sylw o'r opsiynau uwchben y map. Symudwch yr eicon sylwadau i'r rhan o'r map rydych am sôn amdani, a chlicio botwm chwith eich llygoden.




Bydd blwch Ychwanegu Sylw yn ymddangos ichi.




Os byddwch yn penderfynu golygu neu ddileu sylw rydych wedi'i ychwanegu, gallwch wneud hynny drwy glicio'r eicon sylwadau a bydd y blwch Golygu Sylw canlynol yn ymddangos.




Yn ôl i'r Cynnwys

## Offer Lluniadu Ychwanegol

### Cwtogi hyd at ffin y tir sydd wedi'i gofrestru

Os ydych chi wedi dewis y weithred Cofrestru Tir a bod eich braslun yn gorgyffwrdd â thir sydd wedi'i gofrestru'n barod, bydd eich braslun yn cael ei leihau'n awtomatig hyd at ffin y tir sydd wedi'i gofrestru, a bydd neges yn ymddangos fel y gwelir yn yr enghraifft ganlynol.







Yn ôl i'r Cynnwys

**Ychwanegu siapiau ychwanegol**

Os ydych chi wedi gorffen lluniadu a heb ddangos y darn tir yn gyfan mewn camgymeriad, gallwch ychwanegu siapiau ychwanegol at eich lluniad a byddant yn cael eu cyfuno i greu un siâp, fel y gwelir isod.

Enghraifft o gofrestru tir:



Enghraifft o ychwanegu nodwedd barhaol:




[Yn ôl i'r Cynnwys]

**Dileu Arwynebedd**


Gallwch dynnu rhan o nodwedd barhaol rydych wedi'i lluniadu, neu'r nodwedd gyfan, cyn cyflwyno'r cais.

I wneud hynny dylech fynd i'r parsel tir drwy ddewis Newid, Gweld / Newid neu Gwneud Newid ar eich sgrin neu drwy'r opsiwn Cadw Nodweddion Parhaol yn y rhestr **Beth ydych am ei wneud?**


**Dileu rhan o nodwedd barhaol**

Bydd angen ichi naill ai glicio'r nodwedd barhaol ar y map a dewis Newid, neu glicio'r botwm Newid yn y rhestr o nodweddion parhaol.

Dewiswch Dileu yr arwynebedd yn y ddewislen uwchben y map, a llunio siâp i nodi'r darn rydych am ei dileu. I wneud hyn, symudwch y cyrchwr i'r man lle rydych am ddechrau lluniadu, clicio a gollwng botwm chwith eich llygoden, a dechrau symud y cyrchwr i ffurfio'ch siâp. Cliciwch y botwm chwith i newid cyfeiriad nes byddwch chi wedi lluniadu'r siâp mae angen ei dileu, gan orffen drwy glicio unwaith ar y man cychwyn.




Bydd y nodwedd barhaol yn cael ei newid, a bydd maint newydd y braslun yn ymddangos. Bydd yn rhaid ichi gadarnhau'r Maint newydd a Ddatganwyd, a chlicio Cwblhau'r Nodwedd ar ôl gwneud hynny.




Os ydych chi am ddileu nodwedd barhaol gyfan, bydd angen ichi naill ai glicio'r nodwedd barhaol ar y map a dewis Dileu yn y ffenestr sy'n ymddangos, neu glicio'r botwm Dileu yn y rhestr o nodweddion parhaol.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

**Offer i Newid Nodwedd Barhaol**

Gallwch newid siâp nodwedd barhaol rydych wedi'i lluniadu drwy ddefnyddio offer newid nodwedd barhaol. I wneud hynny, bydd angen ichi fynd i'r nodwedd barhaol drwy ddewis Newid, Gweld / Newid neu Gwneud Newid ar y sgrin.

Pan fyddwch chi'n gallu gweld y nodwedd barhaol a'r manylion, gallwch naill ai wneud y canlynol:


- Dewis Newid ar gyfer y nodwedd barhaol yn y ffenestr yng nghornel chwith uchaf y sgrin
- Dewis yr opsiwn Dewiswch yn y ddewislen uwchben y map
- Clicio'r nodwedd barhaol ar y map
- Dewis y botwm Newid yn y ffenestr Eitem wedi'i Lluniadu

neu


- Clicio'r nodwedd barhaol ar y map
- Dewis Newid yn y ffenestr Nodwedd Barhaol
- Dewis yr opsiwn Dewiswch yn y ddewislen uwchben y map
- Clicio'r nodwedd barhaol ar y map
- Dewis y botwm Newid yn y ffenestr Eitem wedi'i Lluniadu.





Bydd y nodwedd barhaol yn ymddangos fel y gwelir isod.



I olygu'ch siâp, cliciwch fotwm chwith eich llygoden ar unrhyw un o'r pwyntiau oren rydych am eu symud a dal y botwm i lawr wrth ichi lusgo'r pwynt i'r man lle rydych am ei symud. Bydd angen ichi wneud hyn ar gyfer y pwyntiau eraill nes byddwch chi wedi golygu'r siâp fel rydych chi'n dymuno.






Ar ôl ichi orffen cliciwch Cwblhau Golygu, a bydd siâp newydd y nodwedd barhaol yn ymddangos fel y gwelir isod.




Yna bydd angen ichi ychwanegu Maint newydd a Ddatganwyd eich nodwedd barhaol, a chlicio Cwblhau'r Nodwedd ar ôl ichi wneud hynny.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

## Datganiadau ac Ymrwymiadau




Rhaid ichi ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i sicrhau eich bod yn cadw atyn nhw. Pan fyddwch chi'n fodlon eich bod wedi'u darllen a'u deall ac yn cadw atyn nhw, ticiwch y blwch a chliciwch 'Parhau' i fynd yn eich blaen.

Yn ôl i'r Cynnwys

## Cyflwyno



Cyflwyniad Cyflwyno

Cliciwch y botwm isod i gyflwyno gweithredoedd Rheoli fy Nhir.

Cewch gopi o'ch gweithredoedd ar dudalen negeseuon Rheoli fy Nhir o fewn un diwrnod gwaith.

Os oes gennych dystiolaeth ddogfennol, cewch ei chyflwyno trwy'ch tudalen Negeseuon, trwy'r post neu drwy ymweld â'ch Swyddfa Ranbarthol.

Cyflwyno

Mae'ch cyflwyniad Rheoli fy Nhir yn barod nawr ichi ei gyflwyno.  Os ydych chi'n barod i'w gyflwyno, cliciwch y botwm 'Cyflwyno'.  Ar ôl ichi wneud hyn, caiff eich manylion Rheoli fy Nhir eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.



Cadarnhad bod Rheoli fy Nhir wedi'i gyflwyno

Rydych wedi cyflwyno Rheoli fy Nhir i ofyn am CRN: [redacted] yn [redacted]

Dylai neges i gadarnhau ein bod wedi cael eich ffurflen Rheoli fy Nhir gyrraedd eich tudalen Negeseuon o fewn un diwrnod gwaith. Bydd yn cynnwys copi o'ch gweithredoedd Rheoli fy Nhir. Darllenwch grynodeb o'ch gweithredoedd a rhowch wybod os oes angen ei newid trwy lythyr neu'ch tudalen Negeseuon.

**Os ydych yn cofrestru parseli tir mae angen i chi wneud un o'r canlynol: ar gyfer parseli tir rydych yn berchen arnynt bydd gofyn i chi gyflwyno Gweithredoedd yr Eiddo neu Gopi Swyddogol o'r Gofrestr Teitlau, yn cynnwys y map cysylltiedig, neu os ydych yn denant neu'n borwr bydd gofyn i chi gyflwyno cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi gan y ddau barti neu lythyr gan y perchennog yn cadarnhau eu bod wedi awdurdodi'r defnydd o'r parsel(i) tir penodol. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno gynnwys dyddiad(au) prynu neu rentu.**

Os oes angen newid manylion eich CPH, cliciwch ar y botwm 'Rheoli fy CPH'.

Rheoli fy CPH

Cliciwch y botwm 'Printio'r Sgrin' i brintio copi o'r dderbynneb hon.

Os ydych yn barod i amgáu un neu fwy o ffeiliau gyda'ch gweithredoedd, cliciwch 'Cyflwyno Dogfennau'. Neu cliciwch 'Gadael'.

Gadael | Printio'r Sgrin | Cyflwyno Dogfennau

Yna, byddwch yn gallu anfon unrhyw ddogfennau ategol sydd eu hangen, naill ai drwy Negeseuon RPW Ar-lein neu drwy'r post neu yn bersonol os oes angen y dogfennau gwreiddiol.

Os ydych yn Asiant neu'n Undeb Ffermwyr ond heb yr hawl i gyflwyno, gallwch safio'r wybodaeth Rheoli fy Nhir a threfnu bod y cwsmer yn ei gweld ac yna ei hanfon pan fydd hi'n gyfleus.

**Cofiwch – rhaid cyflwyno manylion Rheoli fy Nhir o fewn 30 diwrnod ar ôl Dyddiad y Newid rhag ichi gael eich cosbi.**

Yn ôl i'r Cynnwys

### Ar ôl Cyflwyno




Bydd unrhyw barseli tir sy'n rhan o'r manylion a gyflwynwyd drwy Rheoli fy Nhir yn ymddangos yn biws ar eich map Rheoli fy Nhir. Byddan nhw wedi'u lliwio'n biws hefyd ar fap Rheoli fy Nhir y Parti Arall.

### Gweithredoedd heb eu Cyflwyno

Cewch ddewis gadael Rheoli fy Nhir a mynd yn ôl iddi pryd bynnag a mynnwch. Ond cofiwch, rhaid ichi roi gwybod inni am unrhyw newidiadau o fewn 30 niwrnod ar ôl i'r newidiadau hynny gael eu gwneud. Hefyd, ni chewch fwy nag un Rheoli fy Nhir drafft ar y tro.

Caiff unrhyw gais Rheoli fy Nhir nad ydych wedi'i gyflwyno ei ddileu'n awtomatig os na fyddwch wedi'i ddiweddaru mewn chwe mis.

Yn ôl i'r Cynnwys

**Manylion Cysylltu**

**Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**

Y lle cyntaf i'w ffonio neu ei e-bostio os oes gennych gwestiwn yw'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein i holi'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004
Taliadau Gwledig Cymru, PO Box 1081, Caerdydd, CF11 1SU

**Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal**

**Mae ein Swyddfeydd Rhanbarthol ar agor trwy apwyntiad yn unig.**

Swyddfa Ranbarthol Caernarfon
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd LL55 1TH

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras PictonCaerfyrddin SA31 3BT

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod
Llywodraeth Cymru
Neuadd y Sir
Spa Road East
Llandrindod LD1 5LG

**Mynediad at Swyddfeydd RPW i bobl ag anableddau neu anghenion ychwanegol**

Os oes gennych anghenion ychwanegol a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb eich gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

**Gwefan Llywodraeth Cymru**

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: www.llyw.cymru/ffermio.

Bydd cyfle ichi gofrestru arni am daflen e-newyddion yr Adran Materion Gwledig fydd yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost.

**RPW Ar-Lein**

Ewch i wasanaeth RPW Ar-lein drwy wefan Llywodraeth Cymru. Fel arall, i ofyn am fynediad i RPW Ar-lein neu, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â defnyddio'r system ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid ar 0300 062 5004.

**Gwlad**

E-gylchlythyr Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad trwy fynd i: www.llyw.cymru/news-alerts neu: www.llyw.cymru/gwlad

Yn ôl i'r Cynnwys



